

# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Pedr Pedwar (4)** |
| Adnoddau: | • Taflen waith – gweler isod (diwedd y daflen hon).<br>• Brigau / brics chwarae / gwellt yfed.<br>• Ceir chwarae, blodau / porfa / dail. |
| Camau: | Yn y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Pedr Pedwar', mae Pedr Pedwar wrth ei fodd yn chwarae gyda Twm Tri a Poli Pump. Maen nhw wrth eu boddau'n chwarae gemau rasio ceir a gemau adeiladu ar eu sgriniau.<br><br>Cam 1 - Trafodwch ffurf y rhif 4 - llinell i lawr ac yna ar draws, yna llinell i lawr eto. Beth am ddefnyddio deunydd gyda llinellau syth (e.e. brigau / brics chwarae / gwellt yfed) i greu siâp y rhif ar y bwrdd / llawr?<br><br>Cam 2 - Edrychwch ar y daflen a gwnewch y gweithgareddau er mwyn ymarfer adnabod a ffurfio'r rhif 4 |
| Cwestiynu: | Beth ydych chi'n sylwi am siâp y rhif 4? (llinellau syth).<br>Ydych chi'n gallu creu siâp 4 gan ddefnyddio'r deunyddiau?<br>Ydych chi'n hoffi chwarae gemau fel Pedr a'i ffrindiau?<br>Pa rifau sy'n byw bob ochr i Pedr Pedwar? Dangoswch y rhifau gyda'ch llaw - un yn fwy ac un yn llai. |
| Beth nesaf? | Edrychwch ar beth mae Pedr a'i ffrindiau yn chwarae yn y llyfr.<br>Beth am fynd ati i wneud pentyrrau o'r canlynol. Cyfrwch nhw wrth i chi greu bob pentwr:<br>* 4 car chwarae<br>* 4 bricsen<br>* 4 blodyn.<br><br>Gwnewch gêm gyda'r dysgwyr er mwyn eu hannog i chwilio am 4 o bethau a'u crynhoi gyda'i gilydd e.e.<br>- Ewch i grŵp o 4. Sawl person sy dros ben?<br>- Pwy sy'n gallu gweld y rhif 4 o'u cwmpas?<br>- Ble mae'r rhif 4 ar y cloc?<br>- Cyfrwch y pwyntiau ar y cwmpawd. Sawl un sydd?<br>- Oes rhywun yn y dosbarth yn 4 oed?<br>- Taflwch ddis i weld pa rif sy'n glanio i fyny? Taflwch y dis tan i'r rhif 4 ymddangos bedair gwaith. Pa siâp mae'r dotiau yn ei wneud ar y dis pan fydd y 4 yn glanio i fyny? (sgwâr) |



**Rhowch gylch o gwmpas 4 car rasio coch.**



**Lliwiwch 4 blodyn.**



**Cyfrwch y 4 medal. Pa un sy'n wahanol?**



**Dilynwch y llinellau.**

